

Cofnodion Cyfarfod Diweddarau'r Cyngor – 7y.h Nos Fawrth, 21 Ebrill 2020

Presennol: Cyng. Sharon Wyn Parry (Cadeirydd)
Cyng. Gwilym O. Jones
Cyng. Siân Enfys Jones
Cyng. Einir Thomas
Cyng. Dyfed Williams

Trefnwyd cyfarfod Zoom i ddiweddarau Aelodau'r Cyngor. Roedd Cynulliad Cymru heb gadarnhau unrhyw newidiadau i'r ddeddfwriaeth ar gynnal cyfarfodydd . Yn y cyfamser, roedd y trefniant presennol ar gyfer pwerau dirprwyedig yn parhau mewn grym.

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Celfyn Furlong, Gordon Owen, William Victor Owen a Beryl Salisbury.
2. **Datganiad o ddiddordeb: - dim**
3. **Cofnodion y cyfarfod diwethaf** - i'w cadarnhau yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.
4. **Materion yn codi o'r cofnodion:**
 1. Cae Chwarae - Nid oedd yn bosibl cau'r safle ond awgrymwyd y dylid gosod arwyddion i rybuddio preswylwyr o'r risgiau o Coronavirus. Roedd y cwmni GMS wedi torri'r gwair ond nid oedd unrhyw blant i'w gweld yn defnyddio'r offer.
 2. Llwybrau - byddai angen torri'r rhain ddechrau mis Mehefin. Adroddodd Cyng. Parry fod y gamfa ar y llwybr troed heibio Ysgubor Bach wedi'i ddifrodi. Nodwyd hefyd fod trigolion yn cwyno'n arw fod y tiffeddiannwr yn ceisio atal cerddwyr rhag defnyddio'r llwybr troed poblogaidd hwn.
 3. Unrhyw fater arall yn codi o'r cofnodion - dim
5. **Penderfyniadau Cynllunio: dim**
6. **Ceisiadau Cynllunio - dim**
7. **Gohebiaeth Cyngor Sir Ynys Môn – er gwybodaeth yn unig.**
 1. Un Llais Cymru - Bwletin Newyddion
 2. Grant - North Wales Crossroads - roedd parseli bwyd (un yr un) ar gael i'r rhai mewn angen.
 3. Cludiant cyhoeddus - amserlenni newydd ar gael ar wefan y Cyngor Sir
 4. Taliadau grantiau busnes wedi cychwyn - Roedd CSYM yn brysur yn

Llofnod.....Cadeirydd.....

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

gweinyddu'r rhain gyda thua 9 miliwn o bunnoedd wedi'u talu hyd yn hyn.

5. Wedi'i ddiweddarau - Trefniadau ar gyfer angladdau ac amlosgiadau
6. COVID-19 Symptom Tracker App - roedd preswylwyr i'w hannog i ddefnyddio hwn fel y gallai'r wybodaeth hysbysu'r awdurdodau am sefyllfa'r firws yn y cymunedau.

8. Materion Ariannol

Cyflwynwyd yr Adroddiad Ariannol hyd at 31.3. 2020 ynghyd â Chysyniadau a Datganiadau Banc.

Yn y banc ar 31.3.2020 - Cyfrif Cyfredol £10,926.95, Cyfrif Cadw £3,936.63

9. Taliadau i'w gwneud

Cyflog (Mawrth.)	£237.09	Vision ICT (Wefan)	£150
------------------	---------	--------------------	------

11. Adroddiadau Cynghorwyr

1. Dywedodd Cyng. Parry fod y seddi wedi'u difrodi yn y lloches bws wrth Penrhyn Close, Llanfihangel yn Nhowyn.
2. Roedd y Cyng. Parry wedi bod yn cefnogi rhai preswylwyr oedd mewn angen o achos y Coronavirus. Roedd Medrwn Môn, Menter Môn a Môn FM yn gweithio gyda nifer o grwpiau cymunedol i gynnig gwasanaeth gwirfoddol gwerthfawr i'r cymunedau.

12. Cyfarfod Nesaf – 19 Mai 2020

Llofnod.....Cadeirydd.....